# Y Ddadl Deleolegol

## Trosolwg cyflym

*'Mae'r prawf hwn bob amser yn haeddu cael ei drin gyda pharch. Ef yw'r hynaf, y cliriaf, a'r un sydd fwyaf cydnaws â rheswm cyffredin dynolryw.'* - Immanuel Kant

- Mae'r ddadl cynllun yn ddadl a posteriori.
- Mae'n awgrymu bod rhai agweddau ar y bydysawd wedi'u haddasu mor berffaith i gyflawni eu swyddogaeth eu bod fel petaent yn dangos tystiolaeth o gael eu cynllunio'n fwriadol.
- Gellid ond esbonio cynllun o'r fath trwy gyfeirio at gynllunydd deallus, anfeidrol wych – Duw.

Y ddadl sylfaenol dros gynllun yw:

- Mae trefn, pwrpas a rheoleidd-dra i'r bydysawd.
- Mae cymhlethdod y bydysawd yn dangos nodweddion cynllunio.
- Mae cynllunio o'r fath yn mynnu cynllunydd.
- Cynllunydd y bydysawd yw Duw.

Cred rhai athronwyr fod trefn a rheoleidd-dra'r bydysawd yn brawf o gynllunydd; '**design qua regularity**' yw hyn, a gefnogwyd gan Sant Thomas Aquinas.

Mae athronwyr eraill yn edrych ar y ffordd y mae'r rhannau o'r bydysawd yn cydweddu â'i gilydd at bwrpas neu swyddogaeth. '**Design qua purpose**' yw hyn, a gefnogwyd gan William Paley.

**Fersiwn glasurol: beth ddywedodd Aquinas?**

**Y Bumed o Bum Ffordd Aquinas**

- Nid yw'r deallusrwydd gan lawer o wrthrychau i weithio tuag at ddiben eu hunain. Defnyddiodd Aquinas enghraifft o fesen, a'i diben hi oedd coeden dderw.
- Felly, rhaid iddynt gael eu cyfarwyddo gan rywbeth sy'n meddu ar ddeallusrwydd.
- Ni all unrhyw beth sydd â diffyg deallusrwydd weithio tuag at ddiben, oni bai ei fod yn cael ei gyfarwyddo gan ryw fod a chanddo ddeallusrwydd.
- Felly, rhaid bod yna fod deallus, ac rydym yn galw'r bod hwnnw'n Dduw.
- Yn union fel y mae'n rhaid i saethydd (bod deallus) gyfeirio saeth (gwrthrych heb ddeallusrwydd), mae'n rhaid i Dduw gyfeirio natur.

**William Paley**

**Beth ddywedodd William Paley?**

Mae cyfatebiaeth William Paley am yr oriawr wedi dod yn esboniad clasurol o'r ddadl deleolegol:

*Dychmygwch fy mod, wrth groesi rhostir, yn taro fy nhroed yn erbyn carreg, a bod rhywun yn gofyn i mi sut daeth y garreg i fod yno, byddai'n bosibl i mi ateb…iddi fod yno erioed… Ond dychmygwch fy mod yn dod o hyd i oriawr ar lawr, a bod rhywun yn gofyn i mi sut*

*daeth yr oriawr i fod yn y lle hwnnw. Mae'n annhebygol y byddwn yn meddwl am yr ateb a roddais o'r blaen - y gallai'r oriawr, hyd y gwyddwn i, fod wedi bod yno erioed. Eto, pam na fyddai'r ateb hwn yn gwneud y tro am yr oriawr yn ogystal ag am y gar*

*reg? Am y rheswm hwn… pan awn i archwilio'r oriawr, fe welwn… fod ei hamryfal rannau wedi eu llunio a'u gosod ynghyd at bwrpas…mae'r casgliad, y credwn, yn anochel, ei bod yn rhaid bod gan yr oriawr wneuthurwr: bod rhaid, ar ryw adeg ac mewn rhyw le neu'i gilydd, bod crefftwr neu grefftwyr wedi bodoli … a oedd yn deall ei gwneuthuriad, ac wedi cynllunio'i defnydd…*

- Ni ellid esbonio'r oriawr drwy ddweud ei bod wedi bod yno erioed.
- Mae i'r oriawr nodwedd o beiriant gwneuthuredig am fod y rhannau'n ffitio ynghyd i gyflawni swyddogaeth benodol (e.e. dweud yr amser).
- Mae peiriannau gwneuthuredig yn ganlyniad cynllunio deallus.
- Mae gwrthrychau mewn natur yn gydwedd â pheiriannau gwneuthuredig.
- Mae i effeithiau cydwedd achosion cydwedd.
- Felly, mae gwrthrychau mewn natur yn ganlyniad rhywbeth cydwedd â chynllunio deallusol.
- Mae'n rhaid mai'r asiant sy'n gyfrifol am y cyfryw gynllunio yw Duw.

Roedd cyfatebiaeth yr oriawr yn dangos y ddadl 'cynllun yn ymwneud â phwrpas'. Dadleuai Paley hefyd fod rheoleidd-dra a welwyd yn y bydysawd yn mynnu meddwl deallusol fel esboniad. Ei ddadl 'cynllun yn ymwneud â rheoleidd-dra' yw hyn. Esboniodd hyn trwy ddangos y ffordd y mae planedau yn ufuddhau i gyfreithiau wrth iddynt symud. Mae'n rhaid mai'r asiant sy'n gyfrifol am y fath drefn a rheoleidd-dra yw Duw.

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy farn hyn?**

- Mae Aquinas yn edrych ar reoleidd-dra gweithredu – fod 'cyrff naturiol' yn gweithredu mewn modd rheolaidd i gyflawni eu dibenion.
- Mae Aquinas yn dadlau bod trefn yn y byd yn brawf o gynllunydd.
- Mae Paley yn edrych ar gynllun a sut mae pethau'n ffitio â'i gilydd at bwrpas.
- Mae Paley yn dadlau bod trefniadau cymhleth yn awgrymu cynllunydd deallus.

I'w drafod

Ym mha ffyrdd y mae barnau Aquinas a Paley (i) yn debyg a (ii) yn wahanol?

Pa farn yw'r un fwyaf argyhoeddiadol?

**Fersiynau modern: F. R. Tennant**

Dywedodd Tennant, yn ei lyfr Philosophical Theology, fod yn rhaid bod cynllunydd oherwydd:

- Mae'r bydysawd yn gweddu'n berffaith i ddatblygiad bywyd
- Mae'r bydysawd wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n galluogi bywyd i dyfu a datblygu.
- Yn fwyaf pwysig, mae wedi'i gynllunio i ddatblygu bywyd dynol deallus.
- Yr 'egwyddor anthropig' yw hon.

Soniodd Tennant am y 'ddadl esthetig' hefyd – y gall y bodau dynol werthfawrogi a mwynhau prydferthwch, cerddoriaeth, celfyddyd, a llenyddiaeth – nad yw'r un ohonynt yn hanfodol i barhad bywyd, ond maent yno i ddatblygu rhinweddau harddwch a chariad.

Trafodaeth: yw harddwch yn dystiolaeth o ddyluniad?

## Heriau i'r ddadl deleolegol

**Hume**

Ysgrifennodd Paley ei ddadl cynllun chwe blynedd ar hugain ar ôl marwolaeth Hume. Felly ni wnaeth Hume erioed ddarllen gwaith Paley, ond nid oedd dadl Paley o gyfatebiaeth yn wreiddiol. Yn ei lyfr Dialogues Concerning Natural Religion, dadleuai Hume yn erbyn ffurf y ddadl cynllun a boblogeiddiwyd yn ddiweddarach gan Paley.

- Nid oes gan fodau dynol ddigon o wybodaeth i wybod a yw'r byd wedi'i gynllunio neu beidio.
- Mae ein byd yn fwy organig na mecanyddol, felly byddai'n well ei gymharu â moronen yn hytrach nag oriawr.
- Nid yw effeithiau tebyg yn ymhlygu achosion tebyg o angenrheidrwydd.
- Mae bodolaeth nodweddion annymunol natur yn awgrymu nad yw Duw yn gyfiawn ac yn dda.
- Mae'r gyfatebiaeth yn gwneud Duw yn fwy dynol na dwyfol. Os yw Duw i'w gymharu â chynllunydd dynol, yna mae'n ei gyfyngu.
- Gellid esbonio presenoldeb trefn mewn llawer o ffyrdd heb gyfeirio at Dduw.
- Oni bai bod y bydysawd yn lle trefnus, ni fyddai yna bobl i draethu ar ei fodolaeth.
- Gallai'r bydysawd fod wedi dod i fodolaeth drwy siawns (e.e. damcaniaeth Epicuraidd).
- Gallai fod llawer o greawdwyr – pwyllgor o dduwiau.

**Dethol Naturiol:**

- Mae dethol naturiol yn rhoi'r argraff o gynllun – ond mae'n broses ddall, anymwybodol ac awtomatig.
- Mae'r bydysawd yn gwbl fecanistig, wedi'i yrru gan ysgogiadau biolegol.
- Parheir ag esblygiad trwy fwtaniadau ar hap yng ngwneuthuriad genetig creaduriaid byw.
- Arweinia hyn at gred gamsyniol fod yna gynllunydd.
- Nid yw'r byd wedi'i gynllunio.

I'w drafod:

Yn eich barn chi, pa un o farnau'r athronwyr hyn yw'r un fwyaf argyhoeddiadol a pha un yw'r lleiaf argyhoeddiadol? Rhowch eich rhesymau.

## Heriau: a yw'r ddadl deleolegol yn llwyddiannus?

**Dadleuon o blaid:**

- Mae'r bydysawd yn bodoli ac nid yw'n anhrefnus ond yn hytrach yn drefnus.
- Mae'r ymresymiad sy'n arwain at fodolaeth Duw yn defnyddio egwyddorion empirig.
- Mae'n ddadl ganrifoedd oed a gefnogwyd gan lawer o athronwyr.
- Mae'n ddadl a posteriori ac felly mae'n seiliedig ar dystiolaeth empirig.
- Mae'n cefnogi llawer o syniadau gwyddonol.
- Mae gan effeithiau tebyg achosion tebyg.
- Dywed gwyddoniaeth wrthym fod cyfreithiau'n bodoli, ond nid yw'n dweud pam y maent yn bodoli.
- Ymddengys bod gan natur gyfreithiau sy'n gyson.
- Mae'r bydysawd i weld wedi'i fireinio ar gyfer bywyd i fodau dynol.

**Dadleuon yn erbyn:**

- Gallai'r bydysawd fod yn ganlyniad hap a damwain ffodus.
- Nid yw'n dilyn bod rhaid mai Duw yw'r cynllunydd.
- Nid oes unrhyw ffordd i wirio gwirionedd honiadau cynllunio.
- Mae'r byd yn debycach i foronen nag oriawr.
- I wybod bod rhaid bod y bydysawd yn deillio o ddeallusrwydd, byddai'n rhaid i ni fod wedi profi tarddiad y bydysawd.
- Mae'r gyfatebiaeth â pheiriannau yn gwneud Duw yn fwy dynol na dwyfol.
- Mae nodweddion annymunol mewn natur, fel daeargrynfeydd ac afiechyd.
- Mae'r bydysawd yn siŵr o ymddangos fel pe bai wedi'i gynllunio gan na allai bydysawd fod pe na bai rhannau ohono wedi'u haddasu i'w gilydd.
- Pe na bai'r bydysawd yn drefnus, ni fyddem yma i draethu amdano. Felly nid yw'n syndod ein bod yn canfod trefn.

## Pa mor llwyddiannus yw'r atebion hyn?

Yn yr un modd â'r ddadl gosmolegol, mae'r ddadl deleolegol yn cynnig esboniad grymus ar gyfer bodolaeth Duw a'r bydysawd, ond ni all gynnig prawf pendant.

Termau allweddol

Dadl anthropig – natur yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer anghenion bodau dynol.

Qua – gair Lladin yn golygu 'fel [y cyfryw]'.

Cydweddol – cymhariaeth o ddau neu fwy o bethau i ddangos sut maent yn debyg.

Dethol naturiol – mecanwaith allweddol esblygiad. Dyma'r egwyddor lle bydd pob amrywiad bach, os yw'n ddefnyddiol, yn cael ei gadw a bydd y nodwedd yn cael ei throsglwyddo ymlaen i'r genhedlaeth nesaf.

Damcaniaeth Epicuraidd – o gael digon o amser, hyd yn oed mewn bydysawd anhrefnus ar hap, byddai trefn yn dal i ddatblygu.

Theodiciaeth – cyfiawnhad o gyfiawnder Duw, o ystyried bodolaeth drygioni.

Rasel Ockham – dywed yr egwyddor na ddylai endidau gael eu lluosi y tu hwnt i anghenraid. Deillia'r enw o'r syniad o 'eillio' yr endidau hynny nad oes eu hangen.

Egwyddor anthropig– natur yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer anghenion bodau dynol.

Dadl astheteg – gall bodau dynol werthfawrogi harddwch ac ati, pethau nad ydynt yn hanfodol er mwyn goroesi.

## Cwestiynau ar y ddadl deleolegol (cynllun)

1. Esboniwch ystyr y termau canlynol:
   - Teleolegol
   - Dadl esthetig
   - Dadl anthropig
   - Cydweddol
   - Damcaniaeth Epicuraidd

2. Esboniwch sut mae esiampl Aquinas o saethydd a saeth yn dangos ei ddadl dros fodolaeth Duw.

3. Esboniwch sut mae enghraifft Paley o'r oriawr yn dangos ei ddadl dros fodolaeth Duw.

4. Pam mae damcaniaeth dethol naturiol yn herio'r ddadl empirig am gynllun?

5. Esboniwch sut mae awgrym Hume ei bod yn well cymharu'r byd â moronen yn herio un ffurf ar y ddadl cynllun.

6. Sut gall egwyddor Rasel Ockham gael ei chymhwyso i ymateb i'r ddadl fod y gyfatebiaeth oriawr yn arwain at dybied fod cymuned gyfan o dduwiau wedi cynllunio'r bydysawd?

7. Rhowch sylwadau ar y ddadl, oni bai bod y bydysawd yn lle trefnus, ni fyddai yna bobl i draethu ar ei fodolaeth.

8. Darllenwch y dyfyniad hwn ac atebwch y cwestiynau canlynol amdano.

*'Mae'r bydysawd yn amwys ac ni ddylem ragdybio'n syml mai Duw yw'r unig esboniad am ei greadigaeth. Yn wir, gall fod ganddo gynllunydd, a gallai'r cynllunydd hwnnw fod yn bwerus ac yn ddeallus iawn. Fodd bynnag, nid yw'n dilyn fod y cynllunydd hwn yn hollbwerus neu'n berffaith yn foesegol. Mewn geiriau eraill, nid Duw yw'r cynllunydd o angenrheidrwydd. Fel John Stuart Mill, gallem ddweud fod y cynllunydd yn gariadus, ond yn sicr ddigon mae'n rhaid bod y cynllunydd yn gyfyngedig o ran pŵer hefyd, gan fod cymaint sydd o'i le gyda'r bydysawd.'*

i. Ym mha ystyr oedd y bydysawd yn 'amwys'?
ii. Pam nad yw'n dilyn fod y cynllunydd yn berffaith yn foesegol?
iii. Pa dystiolaeth sydd gennym i gefnogi barn Mill fod y cynllunydd yn gariadus?
iv. Pam mae'r awdur yn awgrymu bod y cynllunydd 'yn gyfyngedig o ran pŵer'?
v. Beth mae'r awdur yn ei olygu gan yr ymadrodd '[mae] cymaint sydd o'i le gyda'r bydysawd'?

## Atebion

### 1.

- Teleolegol – esboniad trwy gyfeirio at ddiben neu bwrpas.
- Estheteg – yn ymwneud â phrydferthwch
- Dadl anthropig – natur yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer anghenion y ddynoliaeth.
- Cydweddol – cymhariaeth o ddau neu fwy o bethau i ddangos sut maent yn debyg.
- Damcaniaeth Epicuraidd – o gael digon o amser, hyd yn oed mewn bydysawd anhrefnus ar hap, byddai trefn yn dal i ddatblygu.

### 2.

Mae'r saeth yn fater anneallus ac mae angen rhywbeth deallus (y saethydd) i'w chyfeirio. Yn yr un ffordd, mae mater anneallus yn y bydysawd (pethau naturiol) yn mynnu bod deallus (Duw) i'w cyfeirio at eu diben.

### 3.

Mae gwrthrychau mewn natur yn dangos nodweddion tebyg i beiriannau gwneuthuredig (oriawr). Felly, mae gan effeithiau tebyg (trefn/pwrpas/budd) achosion tebyg (deallusrwydd). Felly, mae'n rhaid mai achos gwrthrychau mewn natur yw Duw.

### 4.

Mae dethol naturiol yn rhoi'r argraff o gynllun – ond mae'n broses ddall, anymwybodol ac awtomatig. Mae'r bydysawd yn gwbl fecanistig, wedi'i yrru gan ysgogiadau biolegol.

### 5.

Mae moronen yn wrthrych mewn natur ond nid yw'n gydweddol â pheiriant. Mae'n organig yn hytrach na'n fecanyddol, felly nid yw'n mynnu deallusrwydd fel achos.

### 6.

Ni ddylid lluosi endidau y tu hwnt i anghenraid. Felly nid oes angen amryfal dduwiau.

### 7.

Nid yw bodolaeth arsylwr yn cael unrhyw ddylanwad ar y tebygolrwydd y bydd y digwyddiadau a arsylwir yn digwydd. Yr hyn sydd angen ei esbonio yw bod y digwyddiad yn digwydd ac nid y ffaith y gellir ei weld (gweler enghraifft peiriant cymysgu cardiau Swinburne).

## 8.

(i) Mae’n cynnwys trefn ac anhrefn, mantais ac anfantais, pwrpas a diffyg pwrpas.

(ii) Am fod y bydysawd yn cynnwys drygioni.

(iii) Bodolaeth daioni yn y bydysawd. Dadleuai Mill fod Duw wedi grymuso bodau dynol i ymladd yn erbyn drygioni, er nad yw Duw ei hun yn ddigon pwerus i oresgyn drygioni.

(iv) Nid yw’r cynllunydd yn gallu creu bydysawd cwbl dda na chael gwared ar ddrygioni yn llwyr.

(v) Mae’n sôn am fodolaeth drygioni moesol a naturiol.